Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd

Gwanwyn 2015

# Eich Pensiwn

Newyddion o Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd





# Croeso'r Cadeirydd

## Croeso i rifyn diweddaraf Eich Pensiwn

Mae 2015 yn nodi 10fed pen- blwydd gweithrediad buddsoddi cyfrifol ar gyfer yr EAPF ac ym mis Mawrth, buom yn dathlu'r garreg filltir hon yn swyddfeydd Standard Life yn Llundain, ein Rheolydd Cronfa mwyaf hirsefydlog.

Bu inni wahodd ein Pwyllgor Pensiwn a chynulliad o gyfranddalwyr a fu'n gymorth i ni gyflawni'r llwyddiant hwn dros y degawd diwethaf.

Bu'r cynulliad yn ystyried y 10 mlynedd ddiwethaf, a hefyd yr heriau sy'n wynebu'r Gronfa dros y degawd nesaf yn y maes buddsoddi pwysig hwn, ac mae gennym fwy o wybodaeth am y datblygiadau hyn ar dudalen 8 y llythyr newyddion.

Gwelodd Ebrill 2015 gyflwyniad gofynion trefn lywodraethol uwch o fewn cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus. Er mwyn cydymffurfio â'r newidiadau hyn rydym wedi sefydlu Bwrdd Pensiwn newydd ar gyfer Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd.

Bydd hyn yn ein galluogi i wella atebolrwydd a strwythur ein trefniadau llywodraethol sydd eisoes yn gadarn.

Bu inni ysgrifennu i aelodau sy'n bensiynwyr a rhai gohiriedig yn Chwefror, yn gwahodd ceisiadau i ymuno â'r Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiwn newydd. Cawsom lefel uchel o ddiddordeb, ac rydym yn falch o gyhoeddi mai Peter

Smith a Hywel Tudor yw'r cynrychiolwyr newydd ar gyfer aelodau sy'n bensiynwyr a rhai gohiriedig. Edrychwn ymlaen at eu croesawu i'w cyfarfod cyntaf ym mis Mehefin. Gallwch ganfod manylion am y broses o ddewis ar ein gwefan.

Yn ein llythyr newyddion yn yr Hydref, rhoddasom wybod i chi ein bod yn gweithio ar ffyrdd newydd o gyfathrebu gyda chi. Rydym yn parhau gyda'r gwaith hwn eleni ac rydym wedi gwneud cynnydd mewn nifer o feysydd. Mae hyn yn cynnwys rhoi'r cyfle i chi roi'r gorau i bapur, lleihau ein hôl troed carbon ac annog mwy o gysylltu digidol. Gobeithiwn byddwch yn ein cefnogi a newid drosodd?

Gallwch ganfod llawer o wybodaeth i'ch helpu i ddeall mwy am ein cronfa bensiwn a datblygiadau newydd yn **www.eapf.org.uk**.

Gobeithiaf byddwch yn mwynhau darllen y llythyr newyddion a'i fod yn ddiddorol ac yn llawn gwybodaeth i chi. Mae pob croeso i chi gysylltu â ni gydag unrhyw awgrymiadau am erthyglau ar gyfer llythyrau newyddion yn y dyfodol, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich pensiwn.

Dylech nodi ein bod wedi cyhoeddi fersiwn Saesneg o 'Your Pension' ar ein gwefan neu gallwch ofyn am gopi oddi wrth Capita.



John Varley
Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau

# Ewch yn ddigidol

## Helpwch yr amgylchedd drwy roi'r gorau i bapur

Rydym yn newid ein dull o gyfathrebu â chi.

Er mwyn helpu'r amgylchedd a lleihau faint o bapur rydym yn ei ddefnyddio, rydym yn bwriadu mynd yn ddigidol yn ein dull o gyfathrebu â chi am eich pensiwn.

Er mwyn llwyddo, mae angen eich cefnogaeth arnom. Mae'n hawdd, yr unig beth sydd angen i chi ei wneud yw cofrestru ar gyfer cyfrif EAPF ar-lein. Mae bod â chyfrif EAPF yn eich galluogi i gyrchu eich gwybodaeth pensiwn wedi'i bersonoli yn ddiogel ac yn hawdd, ar adeg rydych yn ei dewis.

Gallwch edrych ar eich datganiad budd-dal blynyddol a dysgu mwy am eich pensiwn, diweddaru eich manylion personol a defnyddio ein teclyn modelu pensiwn er mwyn helpu i sicrhau fod eich cynlluniau ar gyfer ymddeol yn aros ar y trywydd cywir, a llawer mwy yn ogystal. Pan fyddwch yn cofrestru ar gyfer cyfrif, gofynnir i chi ddweud wrthym sut hoffech dderbyn gwybodaeth yng nghyswllt pensiwn oddi wrthym yn y dyfodol.

Dyma eich cyfle i helpu'r amgylchedd trwy ddewis digidol.


**Os oes gennych gyfrif EAPF eisoe**, y tro nesaf i chi fewngofnodi, gofynnir i chi ddweud wrthym sut hoffech dderbyn gwybodaeth yn y dyfodol, a byddem yn annog mynd yn ddigidol fel y dewis sy'n ystyriol o'r amgylchedd.

Neu, os nad ydych wedi'ch argyhoeddi eto am sefydlu cyfrif ar-lein, gallwch barhau i helpu'r amgylchedd trwy ddewis derbyn cyfathrebiadau'n ddigidol trwy e-bost.

Yr unig beth sy'n rhaid i chi ei wneud yw darparu eich cyfeiriad e-bost: naill ai un personol neu e-bost gwaith i Capita, ac optio i mewn i gyfathrebiadau digidol. Gallwch wedyn fynegi dewis ynghylch sut rydych yn derbyn eich datganiadau budd-dal blynyddol a llythyrau newyddion.

Er mwyn sicrhau fod hyn mor hawdd â phosibl, cyn bo hir byddwn yn anfon e-bost atoch trwy eich e-bost personol, os ydych wedi darparu un i ni'n flaenorol, neu eich e-bost gwaith sy'n gofyn i chi optio i mewn i dderbyn cyfathrebiadau digidol.

Os ydych yn aelod gohiriedig neu'n bensiynwr, byddwn yn cysylltu â chi trwy lythyr; neu ar eich cyfeiriad e-bost personol os ydych wedi rhoi un i ni'n flaenorol.



## Ymwelwch â'n gwefan

Mae ein gwefan ar ei gwedd newydd yn nodweddu newyddion diweddaraf y Gronfa yn ogystal â gwybodaeth gyffredinol am bensiynau a newidiadau i ddeddfwriaeth pensiwn. Mae adrannau ar gyfer bob aelod sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol, dalenni ffeithiol a ffurflenni.

**www.eapf.org.uk**

## Ydych chi'n gwybod sut i gyfrifo eich pensiwn?

Rydym wedi creu cyfrifiannell a fydd yn helpu i sicrhau fod eich cynllunio ar gyfer eich ymddeoliad yn aros ar y trywydd cywir.

Ewch i **www.eapf.org.uk** a chliciwch ar 'Log in to your pension' ar ochr dde'r dudalen.

Dim ond teipio eich tâl pensiynadwy cyfredol sy'n rhaid, a'ch dyddiad ymddeol dewisol, a bydd y gyfrifiannell yn gwneud y gweddill. Bydd yn cyfrifo unrhyw ostyngiadau a chodiadau posibl yn awtomatig, gan roi ffigwr cywir i chi wedi'i seilio ar eich tâl cyfredol, o'ch cofnod pensiwn eich hun.

Ni ddylech ddefnyddio'r gyfrifiannell os ydych:

- O fewn chwe mis o'ch dyddiad ymddeol arfaethedig
- Yn gymwys i dderbyn gwarchodaethau tâl fel BR10

Yn yr amgylchiadau hyn, cysylltwch â Capita er mwyn gofyn am amcangyfrif.

# Newyddion pensiwn diweddaraf

## Trefniadau llywodraethol newydd

Cyflwynodd yr LGPS drefn lywodraethol newydd o Ebrill eleni er mwyn bodloni gofynion Deddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013. Roedd yn ofynnol i ni sefydlu Bwrdd Pensiwn er mwyn gwella ein hatebolrwydd a helpu i wella ein trefn lywodraethol gyfredol.

Roedd gennym ddwy swydd wag ar gyfer ein Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiwn newydd, ac ysgrifenasom at ein holl aelodau sy'n bensiynwyr a'r rhai gohiriedig yn Chwefror, gan wahodd ceisiadau.

Mae'n bleser i ni gyhoeddi ein bod wedi cymeradwyo penodiad Peter Smith a Hywel Tudor yn y drefn honno.

Mae Peter Smith yn gyfreithiwr cymwysedig, yn gadeirydd sefydliad ariannol cilyddol, ac mae wedi dal uwch swyddi eraill drwy gydol ei yrfa.

Mae Hywel Tudor yn gyfrifydd cymwysedig, mae ganddo gyfrifoldeb cyllid dros gorff elusennol cenedlaethol ac mae ganddo brofiad helaeth fel Ymddiriedolwr pensiwn.

Gallwch ganfod mwy o wybodaeth am y broses o ddewis a rôl aelod o'r Bwrdd yn **www.eapf.org.uk**

**"Mae ein cronfa bensiwn yn bwysig oherwydd mae'n sicrhau dyfodol ariannol ein haelodau blaenorol, cyfredol ac yn y dyfodol. Er mwyn ei redeg yn effeithiol, mae angen Trefn lywodraethol gref arnom a chymysgedd amrywiol o bobl fedrus".**

— Dawn Turner
(Pennaeth Rheoli'r Gronfa Bensiwn).

## Rhyddid a dewis

Yng nghyllideb 2014 cyhoeddodd y llywodraeth newidiadau i gynlluniau pensiwn gyda chyfraniad wedi'i ddiffinio.

Cynlluniau pensiwn yw'r rhain lle'r ydych yn cronni eich potiau pensiwn eich hun. Mae eu gwerth pan fyddwch yn ymddeol yn dibynnu ar faint rydych yn ei dalu i mewn a pha mor dda y caiff ei fuddsoddi. O Ebrill 2015 os oes gennych y math hwn o bot pensiwn, efallai gyda chyflogwr blaenorol, ac rydych yn 55 oed neu'n h□n, bydd gennych fwy o ryddid o ran sut rydych yn defnyddio eich cynilion pensiwn.

Mae Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (EAPF) yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) ac mae'n gynllun budd-dal wedi'i ddiffinio. Golyga hyn na fydd y newidiadau rydym yn eu crybwyll uchod yn effeithio ar y budd-daliadau pensiwn rydych yn eu dal yn yr EAPF.

## Effaith ar drosglwyddiadau

Ar yr amod nad ydych yn derbyn eich pensiwn oddi wrthym ni, gallwch drosglwyddo eich budd-daliadau EAPF i mewn i bot pensiwn cyfraniad wedi'i ddiffinio. Mae'n rhaid i chi ymofyn am gyngor annibynnol nawr oddi wrth gynghorydd annibynnol wedi'i awdurdodi gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a thalu'r gost os ydych eisiau trosglwyddo eich budd-daliadau. Mae'n rhaid i chi wneud hyn dim ond os yw eich pot pensiwn wedi cael ei brisio fel un sy'n werth £30,000 neu'n uwch.

Mae'n rhaid i chi ddarparu tystiolaeth i'r Gronfa eich bod wedi ymofyn am gyngor ariannol. Mae'n ofynnol yn statudol i ni eich helpu i osgoi unrhyw weithgarwch a allai fod yn dwyll.

Argymhellwn eich bod yn ymofyn am gyngor ariannol yn ogystal os yw eich pot pensiwn wedi'i brisio fel un sy'n werth llai na £30,000. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i chi wneud hyn dan y gyfraith.



## Effaith ar AVCs mewnol

Nid yw cyflwyniad Rhyddid a Dewis yn effeithio ar Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVCs) mewnol cyfredol) na'r opsiynau ar gyfer ymddeol. Nid yw'r rhain wedi newid.

Byddwn yn caniatáu i aelodau gyda chytundebau ar ôl 31 Mawrth 2014 i gymryd hyd at 100% o'r gronfa AVC fel lwmp swm di-dreth (yn ddarostyngedig i derfynau treth), ar yr ymod y tynnir y budd-daliadau hyn ar yr un pryd â'u prif fudd-daliadau LGPS.

Mae hwn yn newid i'r wybodaeth a ddarparwyd yn ein llythyr newyddion yng Ngwanwyn 2014, a bydd y diwygiad hwn i'r rheoliadau yn gymwys yn ôl-weithredol, felly os ydych wedi cychwyn AVC Mewnol ar ôl y dyddiad hwn, nid oes angen i chi wneud unrhyw beth. Bydd gennych yr un hawl.

## Newidiadau i bensiwn y wladwriaeth

Yn 2016 mae'r llywodraeth yn cyflwyno pensiwn newydd y wladwriaeth ar un lefel. Mae hon yn disodli'r system gymhleth gyfredol o bensiwn sylfaenol y wladwriaeth ac ail bensiwn y wladwriaeth (S2P). Bydd hyn yn darparu cydraddoldeb a chael gwared ar brawf moddion.

Er mwyn derbyn y pensiwn llawn bydd angen o leiaf 35 mlynedd o daliadau yswiriant gwladol arnoch. Seilir y swm gwirioneddol a dderbynnir gan aelodau EAPF ar gyfnodau a dreuliwyd wedi'u contractio allan o ail bensiwn y wladwriaeth. Disgwylir gwybodaeth bellach yn ystod Hydref 2015 pryd fydd y llywodraeth yn gosod swm gwirioneddol y pensiwn, a

byddwn yn darparu mwy o wybodaeth am hyn yn ein llythyr newyddion yn yr Hydref. Bydd y newidiadau'n gymwys dim ond os byddwch yn cyrraedd oedran ymddeol ar ôl Ebrill 2016.

## Cael gwared ar gontractio allan

Fel aelod o'r Gronfa, rydych ar hyn o bryd wedi'ch contractio allan o S2P ac yn elwa o dalu cyfradd is o gyfraniadau yswiriant gwladol. Mae eich cyflogwr hefyd yn elwa o dalu cyfraniadau yswiriant gwladol is.

Ar yr un pryd ag y cyflwynir y pensiwn y wladwriaeth newydd, ni fydd y llywodraeth mwyach yn caniatáu i'r EAPF a chynlluniau pensiwn eraill i gontractio allan o S2P.

## Beth fydd yn digwydd pan ddaw contractio allan i ben?

Byddwch chi a'ch cyflogwr yn gweld codiad yn lefel y cyfraniad yswiriant gwladol rydych yn ei dalu o Ebrill 2016. Bydd aelodau'n gweld codiad o 1.4% ar enillion rhwng £5,564 a £40,040 (ar gyfer 2014/15) a bydd eich cyflogwr yn gweld codiad o 3.4%.

Byddwn yn rhoi manylion pellach i chi am yr effaith y gall hyn ei gael yn ein llythyr newyddion nesaf. Gallwch ddysgu mwy am bensiynau'r wladwriaeth yn :

**www.gov.uk/browse/working/state-pension** neu dilynwch y ddolen o'n gwefan.

## Newidiadau yng nghyllideb 2015 i lwfans gydol oes

Bydd y llywodraeth yn gostwng y lwfans gydol oes gyfredol (LTA) o £1.25 miliwn i £1 filiwn o Ebrill 2016. Nid yw'n glir eto pa warchodaethau gellir eu cynnig i aelodau sydd ar hyn o bryd wedi cronni budd-daliadau pensiwn o rhwng £1 filiwn a £1.25 miliwn, fodd bynnag, rydym yn disgwyl bydd y rhain yn gyson â'r rheiny a gynigiwyd yn dilyn y gostyngiad blaenorol yn 2014.

Mae cynlluniau i gysylltu gwerth y lwfans gydol oes yn y dyfodol i'r Mynegai Prisiau Prynwyr

(CPI) o 2018. Ni fydd y newidiadau hyn yn effeithio ar y rhan fwyaf o aelodau EAPF ond byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi yng nghyswllt y newid arfaethedig. Yn y cyfamser, os hoffech fwy o wybodaeth am y lwfans gydol oes gallwch lawrlwytho'r **ddalen ffeithiau rheolaethau treth** o adran **Cyhoeddiadau** ein gwefan. Byddwn yn ysgrifennu at unrhyw un yr effeithir arnynt.



## Sicrwydd yswiriant oes

Un o'r llu o fuddion a gewch o fod yn aelod yw'r sicrwydd yswiriant oes rydych yn ei dderbyn yn awtomatig, gan gynnwys grant marwolaeth di-dreth unwaith ac am byth. Fel rheol, mae'r grant marwolaeth a dalwn yn 3 gwaith eich tâl.

Er mwyn diogelu eich anwyliaid yn llwyr, mae angen i chi sicrhau eich bod wedi cwblhau ffurflen Mynegi Dymuniad.

Mae'n hynod bwysig eich bod yn enwebu rhywun i dderbyn budd-daliadau, a gallwch rannu'r swm rhwng mwy nag un unigolyn neu sefydliad.

Mae mor hawdd ei wneud ac mae'n ein helpu ni i dalu'r arian yn gyflymach, ac mae'n bosibl na fydd eich etifeddion yn talu treth etifeddiaeth ar yr ystâd. Er mwyn cyrchu ffurflen, ewch i 'ffurflen Mynegi Dymuniad' o dan Ffurflenni ar ein gwefan yn **www.eapf.org.uk**neu ffoniwch ni ar **0800 1216593** a byddwn yn anfon un i chi yn y post.

Cofiwch, gallwch newid eich enwebiad unrhyw bryd ac mor aml ag y dymunwch ond mae'r EAPF yn cadw'r hawl i ddefnyddio ei ddisgresiwn dros daliadau grant marwolaeth.

## Codiad yn eich oedran pensiwn cynharaf

Bwriedir i'r oedran isaf y gallwch dynnu eich budd-daliadau pensiwn godi o 55 oed ar hyn o bryd, i 57 oed erbyn 2028, ac mae hyn yn unol â'r cynnydd yn oedran pensiwn y wladwriaeth (SPA). Yna bydd oedran isaf pensiwn yn parhau i gael ei gysylltu â'r SPA felly bydd bob amser 10 mlynedd.



## Bandiau Cyfrannu Newydd o 1 Ebrill 2015

Mae'r tabl canlynol yn dangos y bandiau cyfrannu ar gyfer 2015-16. Cynyddwyd y rhain gan 1.2% sy'n adlewyrchu'r codiad mewn chwyddiant yn y Mynegai Prisiau Prynwyr o 1 Ebrill 2015.

| Ystod (seiliwyd ar y tâl pensiynadwy gwirioneddol a delir i chi) | Prif Adran | Adran 50/50 |
|---|---|---|
| **Up to £13,600** | 5.50% | 2.75% |
| **£13,601 to £21,200** | 5.80% | 2.90% |
| **£21,201 to £34,400** | 6.50% | 3.25% |
| **£34,401 to £43,500** | 6.80% | 3.40% |
| **£43,501 to £60,700** | 8.50% | 4.25% |
| **£60,701 to £86,000** | 9.90% | 4.95% |
| **£86,001 to £101,200** | 10.50% | 5.25% |
| **£101,201 to £151,800** | 11.40% | 5.70% |
| **£151,801 or more** | 12.50% | 6.25% |

Darperir gwybodaeth bellach drwy glicio ar Gyfraniadau Pensiwn trwy gyfrwng y dudalen Pensiynau sydd ar gael ar Easinet ar gyfer staff Asiantaeth yr Amgylchedd.

Dylai staff NRW a SSCL gysylltu â Capita.

Cofiwch eich bod yn elwa o ryddhad treth ar eich cyfraniadau pensiwn a bod eich cyflogwr yn talu canran o'ch tâl pensiynadwy i mewn i'r Gronfa. Rydych yn colli'r budd hwn os ydych yn optio allan o'r EAPF.

# Aelodau sy'n bensiynwyr a rhai gohiriedig

## Codiadau i'ch pensiwn

Codir eich pensiwn bob blwyddyn yn unol â'r Mynegai Prisiau Prynwyr er mwyn sicrhau ei fod yn cadw gam yng ngham â chostau byw.

## Y codiad gwirioneddol mewn pensiwn eleni yw 1.2% o 6 Ebrill 2015

Os ydych yn gymwys, adlewyrchwyd y codiad hwn yn nhaliad eich pensiwn ym mis Ebrill gyda'r taliad mis llawn yn cael ei dalu ym Mai. Gallwch ganfod manylion pellach yn **A guide to pension increase for the LGPS** o dan Gyhoeddiadau ar ein gwefan.



## Sesiwn cyfarwyddo eleni ar gyfer aelodau sy'n bensiynwyr a rhai gohiriedig

Cynhelir sesiwn cyfarwyddo eleni ar **22 Mehefin** ym Mhencadlys Asiantaeth yr Amgylchedd yn Horizon House, Bryste.

Hoffem eich gwahodd i'r sesiwn cyfarwyddo a fydd yn cwmpasu pynciau fel cyflwyniad Rhyddid a Dewis y Llywodraeth, pensiwn newydd cyfradd unffurf y wladwriaeth a phynciau cyfoes eraill sy'n gysylltiedig â'ch budd-daliadau pensiwn. Bydd cyfle hefyd i chi ofyn cwestiynau a chodi unrhyw bynciau o bryder neu wneud dim ond cyfarfod â'ch cyd-bensiynwyr ac aelodau gohiriedig.

## Ar gyfer eich dyddiadur

**Dydd Llun 22 Mehefin 2015**

Ystafell G1
Pencadlys Asiantaeth yr Amgylchedd
Horizon House,
Deanery Road
Bryste
BS1 5AH

Bydd cofrestru'n dechrau am 4.00yp gydag amser cychwyn ar gyfer y sesiwn cyfarwyddo o **4.30pm** gan orffen oddeutu 6.00yp. Dilynir hyn gan luniaeth ysgafn a fydd yn rhoi'r cyfle i chi sgwrsio gyda'r mynychwyr eraill a chael atebion i'ch cwestiynau oddi wrth y cyflwynwyr.

Er mwyn archebu lle, anfonwch e-bost i **eapfbriefing@capita.co.uk** neu ffoniwch **0800 1216593**.

## Keep us informed

We are always happy to hear from you and welcome any feedback or suggestions you may have.

Remember to tell us about any changes of address or marital status, or any changes in respect of a cohabiting partner or death benefit nominations.

## Manylion cysylltu

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich hawl i bensiwn gallwch gysylltu â'n gweinyddwr pensiwn, Capita, trwy:

Ddefnyddio'r botwm '**Contact the EAPF**' ar y wefan yn **www.eapf.org.uk**

E-bostio **info@eapf.org.uk**

Ffonio **0800 1216593**

Anfon eich cwestiwn i
**Capita**
**Hartshead House**
**2 Cutlers Gate**
**Sheffield**
**S4 7TL**

## Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd yn dathlu 10 mlynedd o Fuddsoddi Cyfrifol

Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd

10 MLYNEDD


o fuddsoddi cyfrifol

Mae 2015 yn nodi 10fed pen-blwydd gweithrediad strategaeth buddsoddi cyfrifol yr EAPF. Rydym yn integreiddio buddsoddi cyfrifol ar draws ein hasedau o £2.6bn ac yn gweithio i ysgogi eraill i ddilyn ein harweiniad. Buom yn llwyddiannus iawn wrth ddatblygu ein dull o fynd ati dros y 10 mlynedd diwethaf, i'r graddau ein bod yn cael ein cydnabod fel arweinydd byd-eang.

Fel rhan o ddathlu ein llwyddiannau dros y 10 mlynedd diwethaf, byddwn yn cyflwyno deg erthygl ar agweddau gwahanol ar fuddsoddi cyfrifol. Byddwn yn ystyried beth rydym wedi'i gyflawni, yr heriau cyfredol o ran gwneud cynnydd a sut rydym yn mynd i'r afael â nhw.

Gobeithiwn oleuo ein dull o fynd ati a'r cynnydd a wnawn wrth reoli perygl hinsawdd ac edrych yn fanylach ar agweddau penodol ar ein strategaeth buddsoddi. Bydd yr erthyglau'n amlygu ein llwyddiannau dros y degawd diwethaf yn ogystal. Bydd ein 10 pennod ar gyfer 10 mlynedd yn dechrau ymddangos cyn bo hir gan ddiweddu gyda'n gweledigaeth ar gyfer rhan nesaf ein taith.

Gweler ein gwefan am fwy o wybodaeth o fis Mai.




Mae cyhoeddi ein hôl troed carbon yn bodloni ein hymrwymiad i Addewid Carbon Montréal, ble mae buddsoddwyr yn ymrwymo i fesur a datgelu ôl troed carbon eu portffolios buddsoddi'n gyhoeddus ar sail flynyddol. Rydym yn cyhoeddi gwybodaeth bellach ar ein gwefan ac yn ein hadroddiad blynyddol a datganiadau ariannol ar **www.eapf.org.uk**

### Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd yn annog grwpiau olew i fynd yn wyrdd

Mae Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd fel rhan o grŵp o fwy na 50 o fuddsoddwyr sefydliadol wedi cyflwyno cynigion i annog BP a Shell i ddatgelu risgiau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd yn eu hadroddiadau blynyddol.

- **Twf o £1bn yn asedau'r Gronfa** dros y 5 mlynedd diwethaf
- **£700 miliwn punt wedi'u buddsoddi** mewn technoleg lân a chwmnïau cynaliadwy cadarn.
- **Gostyngiad o 44%** yn ein hôl troed carbon ers 2008
- Darllenwch fwy yn ein herthyglau **10 – 4 – 10** ar **www.eapf.org.uk**
- **Rhoddwyd ni yn safle #1 yn y DU gan Brosiect Datgeliadau Perchnogion Asedau (AODP).** Nod byd-eang AODP yw gwarchod pensiynau yng ngolau newid hinsawdd mewn perthynas â datgelu ac arfer gorau'r diwydiant